

Datganiad i'r Wasg

Embargo tan 12:01yb

Dydd Gwener, Rhagfyr 4ydd, 2015

Swyddogol: Eryri - Gwarchodfa Awyr Dywyll Ryngwladol
Yn Abergynolwyn heddiw, (dydd Gwener, 4ydd o Ragfyr), cyhoeddir fod
Eryri bellach yn Warchodfa Awyr Dywyll Ryngwladol, y degfed drwy'r
byd.

Dynodiad yw hwn a roddir gan y Sefydliad Awyr Dywyll Ryngwladol i ychydig o gyrchfannau sydd wedi profi fod ansawdd awyr nos eu hardal yn bwysig a bod ymdrech wirioneddol yn cael ei wneud i leihau llygredd golau. Ar hyn o bryd, mae Gwarchodfeydd Awyr Dywyll Ryngwladol i'w cael mewn 9 lleoliad drwy'r byd ac, yn ychwanegol at y cyhoeddiad hwn am Eryri, o holl wledydd y byd i gyd, Cymru yw'r wlad sydd â'r ganran uchaf o'i hawyr dywyll wedi ei dynodi â statws Awyr Dywyll Ryngwladol.

Ychwanegodd Emyr Williams, Prif Weithredwr Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri,

“Mae derbyn y dynodiad hwn yn newyddion arbennig o dda i drigolion, busnesau, ymwelwyr a bywyd gwyllt Eryri. Yn anffodus, mae'r cyfle i fwynhau awyr a sêr y nos yn prinhaus, mae patrymau byw rhai o greaduriaid y nos yn edwino a chan fod llygredd golau ar gynnydd, mae'n cyfrannu at y dirywiadau hyn. Ond, gyda'r dynodiad hwn, bydd bywyd gwyllt yr ardal yn gwella, bydd ansawdd yr amgylchedd yn cael ei warchod, bydd atyniad naturiol newydd i ddenu ymwelwyr newydd i Eryri ar gyfnodau tawel o'r flwyddyn, bydd yr economi leol yn gwella a bydd awyr dywyll Eryri yn cael ei diogelu ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.”

Wrth wneud y cyhoeddiad o'i bencadlys yn Tucson Arizona, dywedodd John Barentine ar ran Cyfarwyddwyr y Sefydliad Awyr Dywyll,

“Yn ddiwyll, rwy'n llongyfarch Parc Cenedlaethol Eryri ar ennill statws Gwarchodfa Awyr Dywyll Ryngwladol, y degfed drwy'r byd. Mae Cymru

bellach yn arwain y byd yn y canran o'r wlad sy'n mwynhau statws gwarchoddedig ei hawyr dywyll: o heddiw, mae'r awyr dywyll sy'n cwmpasu 18% o arwynebedd Cymru wedi ei warchod. 'Does yr un wlad arall wedi llwyddo gymaint i gydnabod gwerth awyr dywyll naturiol a chymryd camau pendant i'w warchod ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.'

Un o'r swyddogion fu ynghlwm â'r ymgais am statws yw Rhys Owen, Pennaeth Gwasanaeth Amaethyddiaeth, Cadwraeth a Choedlannau'r Awdurdod,

"Mae'r ymateb yr ydan ni wedi ei dderbyn gan gymunedau Eryri wedi bod yn hynod o gadarnhaol, a'r gefnogaeth gan Barc Cenedlaethol y Bannau a'r Sefydliad Awyr Dywyll Ryngwladol yn galonogol iawn. Wrth ennill y statws hwn hefyd, ein gobaith yw nid yn unig gwella bioamrywiaeth a gwarchod amgylchedd ac awyr dywyll yr ardal, ond mi fyddwn ni'n mynd gam ymhellach na'r dynodiadau eraill yn y byd drwy godi ymwybyddiaeth o elfennau sy'n cysylltu'r sêr a'n diwylliant ni, o'r Mabinogi i'r Hen Benillion!"

Y cyhoeddiad heddiw yw man cychwyn y daith i Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri. Trefnwyd Noson Gweld Sêr i ddechreuwyr ar lan Llyn Geirionnydd nos Sadwrn nesaf, Rhagfyr 5ed a nos Fawrth, Rhagfyr 14eg ar noson o gawodydd sêr gwib o gytser Yr Efeilliaid bydd cyfle i ddysgu am astroffotograffeg yng Nghroesor. Cynhelir hefyd gystadleuaeth cynllunio poster i hyrwyddo rhinweddau awyr dywyll i ddisgyblion dalgylch Eryri.

Am fwy o fanylion am awyr dywyll Eryri, ewch i www.eryri-npa.gov.uk neu cysylltwch â gweldser@eryri-npa.gov.uk.

Diwedd

Nodyn i Olygyddion:

1. Y Gwrchodfeydd Awyr Dywyll Ryngwladol eraill yn y byd yw Aoraki Mackenzie (Seland Newydd), Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog (Cymru), Parc Cenedlaethol Exmoor (Lloegr), Kerry (Iwerddon), Mont-Mégantic (Québec), Gwarchodfa Natur NamibRand (Namibia), Pic du Midi (Ffrainc), Rhön a Westhavelland (Yr Almaen).
2. Wedi eu dynodi yng Nghymru mae
 - Parc Cenedlaethol Eryri – Gwarchodfa Awyr Dywyll Ryngwladol (statws arian)
 - Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog - Gwarchodfa Awyr Dywyll Ryngwladol (statws efydd)
 - Cwm Elan – Parc Awyr Dywyll Ryngwladol
 - Arfordir Penfro

3. Manylion y lluniau:

4. Am fwy o fanylion, cysylltwch â Swyddog Cyfryngau a Digwyddiadau APCE, Llinos Angharad ar 01766 772237, 07766 255509.

**AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ERYRI
SNOWDONIA NATIONAL PARK AUTHORITY**

Press Release

Embargoed until 12:01yb

Friday, December 4th, 2015

It's Official: Snowdonia – International Dark Sky Reserve
In Abergynolwyn today (Friday, December 4th), it was announced that Snowdonia is now an International Dark Sky Reserve, the tenth in the world.

This designation is given by the International Dark Sky Institute to select destinations that have proven that the quality of their night air is outstanding and real efforts are being made to reduce light pollution. Currently, International Dark Sky Reserves can be found in 9 locations throughout the world and in addition to this announcement for Snowdonia, out of all the countries of the world, Wales is the country with the highest percentage of its dark sky designated as an International Dark Sky.

Emyr Williams, Chief Executive of Snowdonia National Park Authority added, "Receiving this designation is very good news for the residents, businesses, visitors and the wildlife of Snowdonia. Unfortunately, the opportunity to enjoy the night sky and its stars is in decline, the living patterns of nocturnal creatures are dwindling and as light pollution is rising, it contributes to these deteriorations. However, with this designation, the area's wildlife will be improved, the quality of the environment will be protected, there will be a new natural attraction to attract new visitors to Snowdonia on quiet periods of the year, the local economy will be improved and the dark sky above Snowdonia will be protected for future generations."

Announcing the news from its headquarters in Tucson Arizona, on behalf of the Dark Sky Institute Directors, John Barentine said,

"I sincerely congratulate Snowdonia National Park on becoming an International Dark Sky Reserve, the tenth throughout the world. Wales now leads the world in the percentage of its territory enjoying protected status for its night skies: country which enjoys protected dark sky status: as of today, these protections now encompass nearly 8% of the Wales' land area. Nowhere else has achieved comparable success in recognizing the value of night time darkness and taking concrete steps to safeguard it for future generations."

One of the officers who was involved in the bid for the status is Rhys Owen, Head of the Authority's Agriculture, Conservation and Woodlands Service. He said,

"The response we've received from the communities of Snowdonia has been extremely positive, and the support from Brecon Beacons National Park and the International Institute for Dark Skies has been very encouraging. In winning this status, we also hope to not only protect the environment and enhance the biodiversity and dark skies of the area, but we will go a step further than other designations in the world by raising awareness of the features that link the stars of our culture, from the Mabinogi to the old *penillion!*"

The announcement today is the starting point of Snowdonia National Park Authority's journey. A stargazing event for beginners has been arranged at Llyn Geirionnydd on Saturday evening and on Tuesday evening, December 14th, an introduction to astrophotography will be held in Croesor on an evening when the Meteor Shower from the Gemini constellation is expected to be seen. A poster designing competition for pupils within the catchment of Snowdonia promoting the virtues of dark skies has also been arranged.

For more information on dark skies in Snowdonia, visit www.snowdonia@npa.gov.uk or contact seeingstars@snowodnia-npa.gov.uk.

Ends

Editors' Notes:

1. The other International Dark Sky Reserves of the world are Aoraki Mackenzie (New Zealand), Brecon Beacons National Park (Wales), Exmoor National Park (England), Kerry (Ireland), Mont-Mégantic (Québec), NamibRand Nature Reserve (Namibia), Pic du Midi (France), Rhön and Westhavelland (Germany).
2. Dark Skies designations in Wales are:
 - Snowdonia National Park - International Dark Sky Reserve (silver status)
 - Brecon Beacons National Park - International Dark Sky Reserve (bronze status)
 - Elan Valley - International Dark Sky Park
 - Pembrokeshire Coast -
3. **Image Details:**
4. For further details, contact SNPA Media and Events Officer, Llinos Angharad on 01766 772237 or 07766 255509.